## FFURFLEN YMATEB – Cynnig i gau Ysgol Llanfihangel y Creuddyn

**Mae Cyngor Sir Ceredigion yn ymgynghori ar y cynnig i gau Ysgol Llanfihangel y Creuddyn o 31/8/25, gyda disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Llanilar. Mae'r ffurflen ymateb ganlynol yn caniatáu rhanddeiliaid wneud sylwadau ar y prif gynnig, yr opsiynau amgen ac awgrymu opsiynau eraill.** ------------------------------------------------------------------------------------------------------------

**1. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'ch cysylltiad â'r ysgol y mae'r cynnig hwn yn effeithio arni**
**Rhiant/ gofalwr neu warcheidwad**
**darpar riant / gofalwr neu warcheidwad**
**Llywodraethwr**
**Staff**
**Aelod o'r gymuned**
**Cyngor cymuned**
**Arall: nodwch os gwelwch yn dda __X** Ffred Ffransis, ar ran Grwp Ymgyrch Addysg, Cymdeithas yr Iaith

**2. Rhowch unrhyw sylwadau ar y cynnig i gau Ysgol Llanfihangel y Creuddyn**
Erbyn hyn, daeth yn amlwg nad ystyrir yr ymateb I'r ymgynghoriad fel rhan o broses statudol I geisiocau Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn, ond yn hytrach fel ymgynghoriad anffurfiol I wahodd sylwadau am y ffordd ymlaen I ddarparu addysg gynradd mewn modd cost-effeithlon ac effeithlon o ran safon yr addysg ac, fel y mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn egluro, o ran hefyd ei effaith ar y gymuned wledig ac ar yr iaith Gymraeg.

Fel hyn y dylsid wedi cychwyn y broses o ystyroed darpariaeth addysg yn yr ardal – mewn trafodaeth gynhwysol, heb fod gofyn am ymateb I gynnig parod I gau ysgol. Hyd yn oed yn awr, wrth wahodd ymatebion ac "opsiynau amgen" mae'r cyd-destun yn dal yn anghywir. Y tiwn gron yn "ystyriaeth" pob opsiwn amgen yw "Ni fyddai'n arwain at yr arbedion ariannol gofynnol". Mesurir pob opsiwn yn erbyn y criterion simplistaidd hwn ynghyd a'r ffactorau cysylltiedig e.e. cost mathemeategol y pen o ddarparu addysg o gymharu a'r gost o ddarparu addysg mewn ardal drefol boblog. Cychwynwyd ers cyfarfod Caninet yn Ionawr 2024 gyda nod o "arbedion gofynnol" a dyma sy wedi gyrru'r holl broses. Nid oes honiad o fethiant addysgol, a gwrthodir pob opsiwn amgen gyda'r un brawddegau generig ag a ddefnyddiwyd yn y tri phapur cynnig arall. Nid oes unrhyw ymgais I ddehongli hyd yn oed arbedion yng nghyd-destun real yr ysgol hon.

Mae hyn yn hollol groes I fwriad Senedd Cymru wrth dderbyn a phasio trydydd argraffiad y Cod Trefniadaeth Ysgolion yn yr Hydref 2018. Fel yr eglurodd Kirsty Williams (Ysgrifennydd Addysg y Llywodraeth ar y pryd) mewn ateb i gwestiwn gan Suzy Davies AS mewn cyfarfod llawn o'r Senedd ar 19.9.18 (wrth edrych ymlaen at y Côd yn dod i rym bum wythnos yn ddiweddarach),"**Local authorities in those areas, if they have a school that's on the list, should start on the basis that closure is the last option and they should seek every opportunity through a variety of ways to keep those schools open"** Gwnaeth Cyngor Ceredigion y gwrthwyneb i hyn – sef penderfynu'n gyntaf cynnig cau'r ysgolion, dweud

hynny wrth lywodraethwyr a phenaethiaid gan ddweud y gallent anfon i mewn unrhyw gynigion eraill nes ymlaen, yna cau eu hunain mewn swyddfeydd i baratoi Papurau Cynnig. Nid yw hyn yn gyson a “chwilio pob cyfle.. i gadw ysgol ar agor”.

Mae hefyd yn weddol amlwg na fwriadwyd y Cod ar gyfer ysgol fel Llanfihangel-y-Creuddyn. Dywed y Cod mai ystyr graddfa “arwyddicaol o lefydd gwag mewn ysgol yw “25% o’r capasiti.. ac o leiaf 30 lle gwag” Nid oes 30 lle gwag yn Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn. Yn wir , 37 yw’r capasiti cyfan. Disgwylir fod Awdurdod Lleol yn defnyddio synnywr cyffredin mewn sefyllfa fel hon. Bydd ambell ysgol fel Llanfihangel-y-Creuddyn, ac hefyd Ponterwydd, lle bo eu safle diarffordd yn golygu na ellir defnyddio criteria confensiynol. Llanfihangel-y-Creuddyn yw’r ysgol olaf yn yr ardal ddiarffordd hon gan fod ysgolion fel Llanafan a Chapel Seioncau’n gymharol ddiweddar. Mewn cyfnod o stormydd cynyddol oherwydd newid hinsawdd, mae ysgol fel Llanfihangel-y Creuddyn gyda rol pwysig fel man addysg ac fel yr unig ganolfan gymunedol yn y pentre a’r ardal. Mae’r enghreifftiau prin hyn yn gorfod bod yn eithriadau i’r criteria arferol heblaw am eu bod yn methu fel sefydliadau addysgol, ac nid yw hynny’n wir yn achos yr ysgol hon. Ar ben hynny, mae’r ysgol o bwys mawr i’r Gymraeg fel y dangoswn yn nes ymlaen.

Mae’r ystyriaethau hyn o bwys mawr a rhaid rhoi iddynt ystyriaeth ddifrifol, ond nid yw hynny gyfystyr a dweud y dylai’r holl drefn aros yn union fel y mae – fel y trafodir yn yr adran nesaf.

**3. A oes unrhyw opsiynau eraill y credwch y dylai'r Awdurdod Lleol fod yn eu hystyried ar gyfer Ysgol Llanfihangel y Creuddyn, a fyddai'n mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn y Ddogfen Ymgynghori?**
**Oes X**
**Nac oes**
**Os oes, amlinellwch yr opsiwn (opsiynau amgen):**
Y mae yn sicr opsiynau eraill a fyddent “yn mynd I’r afael a’r materion a godwyd yn y ddogfen Ymgynghori”, ond yn bwysicach fyth a allent fod yn sail I drefn gynaniadwy o gynnal a datblygu darpariaeth addysg yn gyffredinol yn yr ardaloedd gwledig.

Mae’r Cod TY yn mynnu fod sylw arbennig yn cael ei roi i greu “ffederasiwn” fel opsiwn amgen i gau ysgol. Gan nad yw cymnryd cam cyfansoddiadol o greu ffederasiwn ynddo’I hun yn newid cost darpariaeth addysg, na nifer llefydd gwag na’r fformiwla mathemategol o osod “cost y disgybl”, mae’n amlwg nad dyna’r ystyr a fwriadwyd yn y Cod. Nid cymhariaeth rhwng y status quo ar y naill law neu greu ffederasiwn a gadael popeth arall fel y mae yw’r ystyr yn amlwg. Ni all brawddeg generig yn datgan yr hunan-amlwg felly gael ei ystyried fel “ystyriaeth ofalus” o’r opsiwn. Y gwir gymhariaeth yw rhwng y statws quo ar y nail law ac ar y llaw arall y strwythur newydd a fydd wedi ei resymoli o ganlyniad I greu ffeerasiwn.

Ond mae diffyg arayn y dadansoddiad yn y ddogfen o ganlyniad I’r ffaith fod y Cyngor wedi ysyried yr ysgolion fel endidau unigol gan geisio cau’r rhai gwanaf yma ac acw. Y cyfarwyddyd yn y Cod, fodd bynnag, yw y dylid ystyried y ddarpariaeth addysg *fesul ardal.* Petai’r Cyngor wedi gwneud hynny, gallsai wedi osgoi’r nonsense o werthuso (yn arwynebol) mewn un Papur Cynnig ffederasiwn damcaniaethol rhwng Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn ac

Ysgol Llanilar, tra ar yr un pryd mewn Papur Cynng arall (cyfamserol) ystyried ffederasiwn arall rhwng Ysgol Llangwyryfon a'r un Ysgol Llanilar fel na bo unrhyw gyswllt rhwng y ddau ymarferiad ! Yn hunan-amlwg byddai mwy o botensial gwneud arbedion o resymoli darpariaeth addysg dros y dair ysgol – Llanfihangel-y-Creuddyn, Llanilar a Llangwyryfon, gan gynnwys hefyd o bosib Ysgol Llanfarian.

Dylsid fod wedi cynnal trafodaethau rhwng llywodraethwyr y bedair ysgol – ac yn wir y mae cyfle gwneud hynny yn awr – o ran creu Ffederasiwn Ystwyth rhwng y dair neu bedair ysgol fel model cynaliadwy at y dyfodol, ac fel dull o gynnal prsenoldeb addysgol a chanolfan I'r gymuned mewn pentre ac ardal diarffordd fel Llanfihangel-y-Creuddyn. Gellid trefnu gweithgrau I amcangyfri faint o arbedion y gellid eu creu dros gyfnod o resymoli gweinyddiaeth a pharcasu ac arweinyddiaeth, ac o beidio a gorfod dyblygu adnoddau ar bob safle. Gallai gweithgor arall lunio darpar-raglen o sut y gellid cryfhau'r ffederasiwn fel uned addysgol gan rannu adnoddau dynol a gosod. Gallai gweithgor arall ystyried sut I wella profiad disgyblion e.e. trwy ddod a nhw at ei gilydd ar gyfer chwaraeon, cerddoriaeth etc. Dyma a olygir wrth "ystyriaeth ofalus", nid ticio blychau gyda brawddegau generig.

Mae hefyd sawl model ar gyfer ffederasiwn. Un model nas ystyriwyd o gwbl yw Ffederasiwn yn cwmpasu Ysgol Uwchradd Penweddig a nifer o ysgolion cynradd yng ngogledd y sir. Gallent fod yn ysgolion aml-safle, neu gellid gofyn I'r Ysgrifennydd dros Addysg am ganiatad I greu Ffederasiwn o ragor na chwech ysgol. Byddai manteision potensial sylweddol ar drefnioant o'r fath – o ran rhesymoli gweinyddiaeth ac arweiniad, a hyrwyddo uned addysgol gref a dilyniant o'r sector cynradd I'r uwchradd, a chlymu disgyblion I mewn I norm addysg uwchradd Gymraeg. Byddai hefyd yn cryfhau Ysgol Penweddig, a gellid neilltuo unrhyw ofod gwag ar y safle am weithgareddau Ffederasiwn.

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion hefyd yn pwysleisio na ddylai gofod gwag olygu'n otomatig fod ffafrio cau ysgol. Yn yr achos dan sylw, mae capasiti dros ben yn Ysgol Llanilar. Ni waned unrhyw ymdrech difrifol, wrth baratoi Papur Cynnig gwreiddiol, I ystyried defnydd amgen o'r gofod. Gellid ei neilltuo ar gyfer gweithgareddau ffederasiwn, ond mae hefyd angen , yn ol y Cod, archwilio posibiliadau defnyddio gofod gwag ar gyfer adleoli swyddi sector cyhoeddus a/neu weithgareddau cymunedol, a bu eisoes son am greu hyb cymunedol I'r ardal. Nid yw'n ddigonol crybwyll yn unig opsiynau o'r fath ac wedyn eu gwrthod gydag un cymal generig am roi diogelwch plant yn gyntaf. Gellid datgan y gwirionedd elfennol hwnnw mewn unrhyw sefyllfa, ac felly byddai'r adran hon o'r Cod yn ddi-ystyr. Mae'r Cod yn disgwyl fod ymdrech cydwybodol I ganfod dymuniadau llywodraethwyr a rhieni ynghyd ag astudiaeth wrthrychol o'r posibiliadau.

Byddai paratoi opsiynau amgen o'r fath yn golygu cryn waith – ond dyna'r holl bwynt. Nida r chwarae bach  y dylid amddifadu cymuned o'I hysgol ac, yn yr achos hwn, gymuned o'I hunig fan cyfarfod.

**4. A oes gennych unrhyw bryderon am effaith y cynnig i gau Ysgol Llanfihangel y Creuddyn ar unrhyw un o'r canlynol:**
**y Gymuned X**
**Pobl â nodweddion gwarchodedig h.y. oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol**
**Arall: Nodwch os gwelwch yn dda ___________________**
**Rhowch fanylion pellach isod:** Byddai cau'r ysgol yn golygu'n ymarferol amddifadu'r gymuned o'I hunig fan cyfarfod – gan y byddai'n anos o lawer I gymuned fach gynnal yr adeilad heb y rhent blynyddol gan y Cyngor. Golygai hynny yn ei dro y byddai'r gymuned yn heneiddio gan y byddai teuluoedd ifainc yn anhebyg o symud I ardal heb ysgol na gwasanaethau.

**5. Yn unol â Safonau'r Gymraeg mae'n ofynnol i ni ystyried effeithiau unrhyw benderfyniadau polisi ar y Gymraeg.**
**a. Yn eich barn chi, pa effeithiau cadarnhaol neu andwyol y byddai'r cynnig hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**
Byddai'r effeithiau'n sicr yn andwyol ac yn negyddol o ran y Gymraeg. Am y rheswm a roddwyd uchod, byddai llai o fywyd ifanc Cymraeg yn yr ardal. Ar ben hyn mae swyddfa'r Comisiynydd Iaith wedi mynnu fod y Cyngor yn asesu'r effaith ar y Gymraeg yn gyffredinol, nid ar sail cyfrwng yr addysg yn unig. Mae'n amlwg fod disgyblion yr ysgol wedi ymwreiddio yn y Gymraeg – yn cynnwys plant mewnfudwyr. O fewn y ddegawd ddiwethaf, mae pob disgybl ond dau wedi dewis symud ymlaen at addysg uwchradd Gymraeg ei chyfrwng.

**b. Sut ydych chi'n credu y gallai'r cynnig hwn gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effaith positif neu mwy positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**
Y cynnig ei hun yw'r broblem

**c. Sut ydych chi'n credu y gallai'r cynnig hwn gael ei lunio neu ei addasu fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol neu'n cael effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**
Y cynnig ei hun yw'r broblem

**6. Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi yn crynhoi'r materion a godwyd gan ymgyngoreion ac ymateb yr Awdurdod Lleol i'r materion hynny. A hoffech chi gael gwybod am gyhoeddiad yr Adroddiad Ymgynghori:**
**Ie X**
**Na**
**Os oes, rhowch gyfeiriad e-bost neu gyfeiriad post:** ffred@cadwyn.com

---

adolygu.ysgolion@ceredigion.gov.uk